Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

## Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Iechyd 2023 - 2024



# Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2023-24

**Tabl Cynnwys**


**Cyflwyniad ... 3**

**Canfyddiadau Allweddol ... 5**

**1. *Nifer y ceisiadau* ... 7**

Nifer y Ceisiadau ... 7

Nifer y ceisiadau am DoLS fesul 100,000 o'r boblogaeth sy'n oedolion ... 9

Ceisiadau gan sefydliadau trydydd parti ... 11

Ceisiadau gan awdurdodau rheoli y tu allan i Gymru ... 11

**2. Math o geisiadau ... 13**

Ceisiadau safonol ... 13

Ceisiadau safonol yn dilyn rhai brys ... 13

Ceisiadau pellach ... 13

**3. Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau i'w hasesu ... 16**

Ceisiadau heb eu dyrannu ... 16

Ceisiadau a dynnwyd yn ôl ... 16

Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau i'w hasesu ... 18

Yr amser a gymerodd i ddyrannu asesiadau safonol ... 19

Yr amser a gymerodd i ddyrannu asesiadau safonol yn dilyn rhai brys ... 21

Yr amser a gymerodd i ddyrannu asesiadau pellach ... 23

**4. Cwblhau asesiadau ... 26**

Cwblhau asesiadau safonol ... 26

Cwblhau asesiadau safonol yn dilyn rhai brys ... 28

Cwblhau asesiadau pellach ... 30

**5. Canlyniad asesiadau ... 33**

Ceisiadau a awdurdodwyd ... 33

Ceisiadau a wrthodwyd a'r rheswm dros hynny ... 36

**6. Hyd awdurdodiad ... 39**

Hyd awdurdodiad ... 39

**7. Nodweddion unigol ... 41**

Ceisiadau yn ôl Oedran, Rhywedd ac Ethnigrwydd ... 41

Ethnigrwydd ... 42

**8. Monitro a Chymorth ... 43**
Adolygiadau ... 43
Cynrychiolaeth ... 43
Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol ... 43
Y Llys Gwarchod ... 44
**Atodiad i'r Adroddiad ... 46**
Ansawdd Data ... 46
Terminoleg ... 46
Adborth ar yr adroddiad hwn ... 46
Rhestr Termau: Termau allweddol a ddefnyddir yn yr Adroddiad Monitro DoLS ... 47

## Cyflwyniad

Dyma adroddiad monitro blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ar ddefnyddio Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yng Nghymru. Lluniwyd yr adroddiad hwn ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (y Ddeddf) yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer gweithredu ar ran pobl nad oes ganddynt y galluedd i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain, a gwneud penderfyniadau ar eu rhan. Mae'r Ddeddf yn nodi pwy all wneud penderfyniadau ar ran person nad oes ganddo'r galluedd i wneud hynny drosto'i hun, pryd a sut. Mae'n sicrhau y caiff penderfyniadau eu gwneud er budd pennaf y person, ac y caiff y person ei gynnwys yn y penderfyniad gymaint â phosibl.

Cyflwynwyd DoLS fel diwygiad i'r Ddeddf, a daethant i rym ym mis Ebrill 2009, gan ddarparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer sefyllfaoedd lle y gall rhywun gael ei amddifadu o'i ryddid o fewn ystyr erthygl 5 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Gwnaeth dyfarniad y Goruchaf Lys ym mis Mawrth 2014[1], sef dyfarniad Gorllewin Swydd Gaer, egluro'r diffiniad ac ehangu cwmpas sefyllfaoedd lle mae rhywun yn cael ei amddifadu o'i ryddid. Mae'r Trefniadau Diogelu yn sicrhau y defnyddir y broses gywir i amddiffyn hawliau dynol pobl nad oes ganddynt y galluedd i gydsynio i'r trefniadau gofal sydd eu hangen arnynt; sy'n cael eu goruchwylio a'u rheoli'n barhaus; ac nad ydynt yn rhydd i adael.

Nod DoLS yw amddiffyn pobl mewn cartrefi gofal ac ysbytai y gall fod angen eu hamddifadu o'u rhyddid. Gelwir ysbytai a chartrefi gofal yn awdurdodau rheoli. Gelwir y cyrff sy'n awdurdodi ceisiadau am DoLS yn Gyrff Goruchwylio. Bydd ysbytai yn cyflwyno cais i'w bwrdd iechyd lleol/cyfatebol i awdurdodi unrhyw geisiadau am DoLS a wneir. Bydd cartrefi gofal yn cyflwyno cais i'w hawdurdod lleol am awdurdodiad o'r fath. Yng Nghymru, yr awdurdod lleol sy'n awdurdodi yw'r awdurdod lleol lle mae'r unigolyn yn byw fel arfer cyn symud i'r cartref gofal.

Disgrifir y tri math o geisiadau am DoLS isod:

- Ceisiadau safonol – Os bydd staff cartref gofal neu ysbyty yn cwblhau cais safonol, yna rhaid i'r asesiadau gofynnol gael eu cwblhau o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd yr aseswyr eu cyfarwyddo gan y Corff Goruchwylio.
- Ceisiadau brys – Gall cartref gofal neu ysbyty gyflwyno ei awdurdodiad brys ei hun er mwyn amddifadu person o'i ryddid os bydd angen gwneud hynny cyn y gellir cael awdurdodiad safonol. Ar yr un pryd, rhaid iddo wneud cais am awdurdodiad safonol (os na fydd eisoes wedi gwneud hynny). Pan fydd yr awdurdod rheoli wedi cyflwyno ei awdurdodiad brys ei hun ac yn gwneud cais am awdurdodiad safonol, rhaid i'r aseswyr gwblhau'r asesiad o fewn pum diwrnod i'r dyddiad y cânt eu cyfarwyddo i wneud hynny. Rydym yn cyflwyno adroddiad ar

[1] Gweler http://mentalhealthlaw.co.uk/Cheshire_West_and_Chester_Council_v_P_(2014)_UKSC_19,_(2014)_MHLO_16

wahân ar y cais am awdurdodiad safonol, yn dilyn awdurdodiad brys. Caiff hyn ei gategoreiddio fel awdurdodiad brys yn yr adroddiad.

- Ceisiadau pellach – Pan fydd awdurdodiad presennol ar gyfer DoLS presennol ar fin dod i ben, a daw'r awdurdod rheoli i'r casgliad bod angen i'r awdurdodiad barhau, dylid gwneud cais am awdurdodiad pellach. Gellir gwneud hyn 28 diwrnod ymlaen llaw.

Arweiniodd dyfarniad y Goruchaf Lys yn 2014 at gynnydd mawr iawn yn nifer y ceisiadau i awdurdodi DoLS. Cyhoeddodd Tŷ'r Arglwyddi adroddiad craffu[2] (2014) ar y Ddeddf Galluedd Meddyliol, a ddaeth i'r casgliad nad oedd DoLS yn "addas at y diben" gan argymell y dylid cyflwyno trefniadau eraill yn eu lle.

Cyflwynwyd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid gan Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 i ddisodli DoLS fel y system i amddifadu rhywun dros 16 oed o'i ryddid yn gyfreithlon. Roedd Llywodraeth y DU wedi gobeithio rhoi'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid ar waith yn llawn erbyn mis Ebrill 2022, ond oherwydd effaith pandemig COVID-19 yn bennaf, oedwyd y broses o'u rhoi ar waith. Ar 5 Ebrill 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai'r broses o roi'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid ar waith yn cael ei hoedi.

Bydd y DoLS yn parhau; rhaid i awdurdodau lleol, byrddau iechyd a darparwyr barhau i ddilyn y broses ar gyfer DoLS er mwyn sicrhau y caiff hawliau pobl eu hamddiffyn ac y caiff trefniadau gofal a chymorth yr ystyrir eu bod yn amddifadu o ryddid eu hawdurdodi'n briodol.

[2] Gweler https://publications.parliament.uk/pa/ld201314/ldselect/ldmentalcap/139/13902.htm

## Canfyddiadau Allweddol

- Bu cynnydd pellach o 7% (494) yn nifer y ceisiadau a gafodd byrddau iechyd yn ystod 2023-24 a lleihad cyffredinol o 2% (258) yn nifer y ceisiadau a gafodd awdurdodau lleol.
- Er gwaethaf ymdrechion gorau awdurdodau lleol a byrddau iechyd, mae'r data a gyflwynir gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn parhau i ddangos bod nifer mawr o bobl sy'n aros am asesiad DoLS yn wynebu oedi cyn i'w cais gael ei ddyrannu i asesydd. Mae hyn yn arwain at oedi cyn cwblhau asesiadau, oedi cyn rhoi awdurdodiadau, a chyfnodau estynedig posibl o amddifadu anghyfreithlon.
- Mae'r oedi hir cyn dyrannu, asesu ac awdurdodi ceisiadau yn parhau i olygu bod llawer o bobl yng Nghymru yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid heb fod unrhyw amddiffyniad cyfreithiol ar waith nac unrhyw gyfle i herio wrth aros i benderfyniad gael ei wneud. Mae'n anodd gweld sut y gellir gwneud gwelliannau sylweddol a pharhaus heb ailwampio'r system. Hyd nes y caiff hynny ei wneud, byddwn yn parhau i weld niferoedd mawr o bobl mewn amgylchiadau bregus heb yr amddiffyniadau cyfreithiol y mae ganddynt yr hawl iddynt.
- Bu cynnydd o 41% (778) yn nifer y ceisiadau a aseswyd gan fyrddau iechyd yng Nghymru a bu lleihad o 5% (520) yn nifer y ceisiadau a aseswyd gan awdurdodau lleol.
- Rhaid i'r cyfnod o amser y mae'n ei gymryd i awdurdodau lleol a byrddau iechyd asesu'r ceisiadau wella, gan nad yw llawer o geisiadau yn cael eu hasesu o fewn y cyfnodau statudol.
- Mae llawer o awdurdodiadau brys yn parhau i ddod i ben cyn y gellir cynnal yr asesiadau DoLS gofynnol. Gallai fod o fudd i rai awdurdodau lleol adolygu eu gweithdrefnau presennol ar gyfer awdurdodiadau brys ar y cyd â'r awdurdodau rheoli.
- Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, mae llawer o awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd dyrannu nifer y ceisiadau a geir am awdurdodiad pellach. Unwaith eto, mae hyn yn cynyddu'r risg y caiff pobl eu hamddifadu o'u rhyddid heb amddiffyniad parhaus y trefniadau diogelu. Rhaid i bob corff goruchwylio sicrhau y caiff hawliau pobl eu hamddiffyn ac y caiff yr asesiadau ar gyfer pob cais eu cynnal o fewn y nifer o ddiwrnodau a nodir yn y Cod Ymarfer.
- Mae defnydd awdurdodau lleol a byrddau iechyd o amodau yn amrywio, gyda rhai rhanbarthau yn eu defnyddio'n fwy nag eraill. Dylai Cyrff Goruchwylio sicrhau y caiff amodau eu defnyddio lle bo angen a'u bod yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl, gan gynnwys lleihau neu roi'r gorau i'r amddifadu.
- Mae'r rhan fwyaf o bobl yn parhau i gael eu cefnogi a'u cynrychioli mewn materion sy'n ymwneud â'u hamddifadu o'u rhyddid. Rhaid i Gyrff Goruchwylio barhau i sicrhau y caiff “cynrychiolydd person perthnasol” ei benodi ar gyfer pob awdurdodiad.

- Rhaid i'r broses o gofnodi ethnigrwydd wella, gan nad yw 22% o awdurdodau lleol a 16% o fyrddau iechyd yn cofnodi ethnigrwydd yr ymgeisydd ar hyn o bryd.

# 1. *Nifer y ceisiadau*


## *Nifer y Ceisiadau*

Cafodd awdurdodau lleol 11,854 o geisiadau yn 2023-24. Mae'r ffigur hwn 2% (258) yn llai na'r flwyddyn flaenorol (12,112).

Nododd hanner yr awdurdodau lleol gynnydd yn nifer y ceisiadau am DoLS a gafwyd. Gwelwyd cynnydd o 37% yn nifer y ceisiadau yn Nhorfaen, a chynnydd o 30% ym Mlaenau Gwent a Merthyr Tudful. Abertawe a gafodd y nifer mwyaf o geisiadau (1,175), ond roedd y ffigur hwn ychydig yn llai na'r flwyddyn flaenorol (1,231).

Dim ond dau awdurdod lleol a nododd leihad yn nifer y ceisiadau a gafwyd yn ystod 2023-24 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol: Cafodd Caerfyrddin 33% yn llai o geisiadau (291 yn llai), a chafodd Bro Morgannwg 38% yn llai o geisiadau (227 yn llai). Fodd bynnag, yn ystod 2022-23, nododd y ddau awdurdod gynnydd yn nifer y ceisiadau a gawsant gan awdurdodau rheoli. Gweler Ffigur 1.1.


**Ffigur 1.1**. Nifer y ceisiadau am DoLS a gafodd pob awdurdod lleol rhwng 2021 a 2024.



Cafodd byrddau iechyd 7,483 o geisiadau am DoLS yn 2023-24. Mae hyn yn gynnydd o tua 7% (494) o gymharu â nifer y ceisiadau a gafwyd yn 2022-23 (6,989).

Roedd y galw yn amrywio rhwng y byrddau iechyd. Gwelwyd cynnydd sylweddol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Gweler Ffigur 1.2.

**Ffigur 1.2.** Nifer y ceisiadau am DoLS a gafodd pob bwrdd iechyd rhwng 2021 a 2024.




## *Nifer y ceisiadau am DoLS fesul 100,000 o'r boblogaeth sy'n oedolion*

Yn 2023, roedd tua 3.16 miliwn o bobl yn byw yng Nghymru, ac roedd 2.54 miliwn ohonynt yn oedolion dros 18 oed[3]. Mae hyn yn golygu bod 466 o geisiadau wedi'u gwneud i fyrddau iechyd a 294 o geisiadau wedi'u gwneud i awdurdodau lleol, ar gyfartaledd fesul 100,000 o oedolion yng Nghymru.

Fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol, mae cyfraddau DoLS yn amrywio'n fawr rhwng awdurdodau lleol. Mae'r amrywiadau hyn yn adlewyrchu'r gwahaniaethau o ran demograffeg leol, gwybodaeth am DoLS a dealltwriaeth ohonynt ar draws y sector.

O gymharu â maint y boblogaeth, cafodd awdurdodau lleol Castell-nedd Port Talbot (613), Powys (600) ac Abertawe (588) niferoedd uchel o geisiadau fesul 100,000 o'r

[3] Gweler Amcangyfrifon poblogaeth lefel cenedlaethol fesul blwyddyn, oed a gwlad y DU (llyw.cymru)

boblogaeth. Er bod Merthyr Tudful (288) a Rhondda Cynon Taf (314) wedi gweld cynnydd yn nifer y ceisiadau yn ystod 2023-24, yr awdurdodau hyn sy'n cofnodi'r cyfraddau DoLS isaf o hyd, ac mae'r cyfraddau hyn yn parhau i fod islaw cyfartaledd Cymru. Gweler Tabl 1.1.

**Tabl 1.1.** Cyfanswm y boblogaeth sy'n oedolion a nifer y ceisiadau am DoLS a gafodd pob awdurdod lleol a nifer y ceisiadau fesul 100,000 o'r boblogaeth sy'n oedolion yn 2023-24.

| | Cyfanswm y Boblogaeth 18 oed a throsodd | Nifer y ceisiadau am DoLS | Ceisiadau am DoLS fesul 100,000 o'r boblogaeth |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 54,032 | 277 | 512.7 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 117,802 | 521 | 442.3 |
| Caerffili | 140,377 | 619 | 441.0 |
| Caerdydd | 307,789 | 993 | 322.6 |
| Sir Gaerfyrddin | 153,399 | 584 | 380.7 |
| Ceredigion | 61,618 | 357 | 579.4 |
| Conwy | 93,937 | 441 | 469.5 |
| Sir Ddinbych | 77,877 | 451 | 579.1 |
| Sir y Fflint | 124,995 | 606 | 484.8 |
| Gwynedd | 97,490 | 377 | 386.7 |
| Ynys Môn | 56,220 | 291 | 517.6 |
| Merthyr Tudful | 46,137 | 133 | 288.3 |
| Sir Fynwy | 77,533 | 438 | 564.9 |
| Castell-nedd Port Talbot | 114,906 | 704 | 612.7 |
| Casnewydd | 126,592 | 701 | 553.7 |
| Sir Benfro | 101,521 | 550 | 541.8 |
| Powys | 111,015 | 666 | 599.9 |
| Rhondda Cynon Taf | 192,277 | 604 | 314.1 |
| Abertawe | 199,795 | 1,175 | 588.1 |
| Torfaen | 73,991 | 382 | 516.3 |
| Bro Morgannwg | 106,750 | 378 | 354.1 |
| Wrecsam | 108,383 | 606 | 559.1 |
| **Pob Awdurdod Lleol** | **2,544,436** | **11,854** | **465.9** |

Yn debyg i'r cyfansymiau, roedd nifer y ceisiadau o gymharu â maint y boblogaeth yn amrywio'n sylweddol rhwng y byrddau iechyd. Efallai mai'r rheswm dros hyn yw gwahaniaethau o ran demograffeg leol a nifer yr awdurdodau rheoli yn yr ardal honno. Er enghraifft, mae gan rai byrddau iechyd nifer uwch o leoliadau cleifion mewnol, oedolion hŷn ac anableddau dysgu yn eu hardal ddaearyddol, a all arwain at nifer uwch o geisiadau am DoLS.

Cwm Taf Morgannwg a gafodd y nifer uchaf o geisiadau o gymharu â maint y boblogaeth (364). Caerdydd a'r Fro a gofnododd y nifer isaf o geisiadau o gymharu â

maint y boblogaeth (201), ac roedd y ffigur hwn ymhell islaw cyfartaledd Cymru. Gweler Tabl 1.2.

**Tabl 1.2.** Cyfanswm y boblogaeth sy'n oedolion a nifer y ceisiadau am DoLS a gafodd pob bwrdd iechyd a nifer y ceisiadau fesul 100,000 o'r boblogaeth sy'n oedolion yn 2023-24.

| | Cyfanswm y Boblogaeth 18 oed a throsodd | Nifer y ceisiadau am DoLS | Ceisiadau am DoLS fesul 100,000 o'r boblogaeth |
|---|---|---|---|
| Aneurin Bevan | 472,525 | 1,267 | 268.1 |
| Betsi Cadwaladr | 558,902 | 2,004 | 358.6 |
| Caerdydd a'r Fro | 414,539 | 835 | 201.4 |
| Cwm Taf Morgannwg | 356,216 | 1,295 | 363.5 |
| Hywel Dda | 316,538 | 820 | 259.1 |
| Addysgu Powys | 111,015 | 366 | 329.7 |
| Bae Abertawe | 314,701 | 896 | 284.7 |
| **Pob Bwrdd Iechyd** | **2,544,436** | **7,483** | **294.1** |

### *Ceisiadau gan sefydliadau trydydd parti*

Os bydd y person, unrhyw berthynas, ffrind neu ofalwr, neu unrhyw drydydd parti o'r farn bod person yn cael ei amddifadu o'i ryddid heb fod yr awdurdod rheoli wedi gwneud cais am awdurdodiad, dylai dynnu sylw'r awdurdod rheoli at hyn. Os na fydd yr awdurdod rheoli yn gwneud cais am awdurdodiad, gall y person dan sylw ofyn i'r Corff Goruchwylio benderfynu a oes achos o amddifadu o ryddid heb awdurdod.

O blith y 11,854 o geisiadau a gyflwynwyd i awdurdodau lleol yn ystod 2023-24, cafodd 17 eu cyflwyno gan drydydd parti. Cafodd y ceisiadau eu gwneud i bedwar awdurdod lleol, sef Ynys Môn (2), Conwy (6), Powys (3) a Cheredigion (6); cafodd pump o'r rhain eu cyflwyno gan gynrychiolwyr cyflogedig a chafodd 12 eu cyflwyno gan weithwyr proffesiynol neu eiriolwyr. O blith y 7,483 o geisiadau a gyflwynwyd i fyrddau iechyd, cafodd dau eu cyflwyno gan drydydd parti, gan gynnwys un cais a gyflwynwyd gan gynrychiolydd cyflogedig.

### *Ceisiadau gan awdurdodau rheoli y tu allan i Gymru*

Mae rhai pobl o Gymru yn cael eu gofal a'u cymorth neu driniaeth mewn cartref gofal neu ysbyty y tu allan i Gymru. Pan fydd y cais yn cael ei wneud gan awdurdod rheoli y tu allan i Gymru, a bydd y gofal a'r cymorth neu'r triniaethau wedi cael eu trefnu gan awdurdod lleol neu fwrdd iechyd yng Nghymru, y Cyrff Goruchwylio yng Nghymru fydd yn gyfrifol am yr asesiadau DoLS o hyd.

Yn 2023-24, cafodd 2% (241) o'r ceisiadau am DoLS a gyflwynwyd i awdurdodau lleol eu gwneud o'r tu allan i Gymru, yn debyg i'r flwyddyn flaenorol. Cafodd y ceisiadau hyn eu gwneud gan awdurdodau rheoli yn Lloegr i 15 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Powys sy'n cael y nifer mwyaf o hyd (15%, neu 100 o geisiadau), yna Sir y Fflint (7%, neu 40 o geisiadau).

Yn ystod 2023-24, cafodd 4.9% (367) o'r ceisiadau am DoLS eu gwneud i ddau fwrdd iechyd gan awdurdodau rheoli o'r tu allan i Gymru. Cafodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys 185 o geisiadau o'r tu allan i Gymru, a chafodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 182 o geisiadau o'r tu allan i Gymru. Mae'r ddau fwrdd iechyd ar y ffin â Lloegr. Ni chafodd y byrddau iechyd eraill unrhyw geisiadau y tu allan i Gymru.

## 2. Math o geisiadau

### *Ceisiadau safonol*

Ceisiadau am awdurdodiad safonol yw tua hanner y ceisiadau a wneir i awdurdodau lleol o hyd. Yn 2023-24, roedd 47% (5,565) o'r 11,854 o geisiadau yn rhai safonol, yn debyg i'r flwyddyn flaenorol.

Ni chafodd Wrecsam unrhyw geisiadau am awdurdodiad safonol gan awdurdodau rheoli. Fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol, roedd yr holl geisiadau a gafodd yn geisiadau am awdurdodiad safonol yn dilyn awdurdodiad brys, neu'n geisiadau am awdurdodiad pellach. Gwynedd a gofnododd y ganran uchaf o geisiadau safonol, sef 87% (329). Fodd bynnag, gallai'r ffaith nad yw wedi cofnodi unrhyw geisiadau am awdurdodiad pellach ar gyfer y cyfnod hwn effeithio ar hyn. Gweler Tabl 2.1.

Yn 2023-24, dim ond 6% (479) o'r ceisiadau a wnaed i fyrddau iechyd oedd yn geisiadau safonol. Mae hyn yn ostyngiad bach o gymharu â'r ganran o geisiadau safonol a gofnodwyd yn 2022-23 (8%).

Nifer bach o geisiadau safonol a gafodd nifer o fyrddau iechyd. Mae hyn yn cynnwys 0% (1) ar gyfer Hywel Dda, 1% (28) ar gyfer Betsi Cadwaladr, 4% (53) ar gyfer Aneurin Bevan a 5% (18) ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Gweler Tabl 2.2.

### *Ceisiadau safonol yn dilyn rhai brys*

Cafodd 19% (2,235) o'r ceisiadau a wnaed i awdurdodau lleol yn 2023-24 eu gwneud drwy'r llwybr brys, sef cynnydd bach o gymharu â'r 18% a gofnodwyd yn y flwyddyn flaenorol. Nododd Sir Fynwy fod 63% (278) o'i geisiadau yn rhai brys. Y cyrff goruchwylio â'r niferoedd isaf o geisiadau brys oedd Pen-y-bont ar Ogwr 3% (17), Caerdydd 3% (26), Ceredigion 3% (10) a Bro Morgannwg (13). Gweler Tabl 2.1.

O blith y 7,483 o geisiadau a wnaed i fyrddau iechyd yn 2023-24, cafodd 6,649 eu gwneud drwy'r llwybr brys (89% o'r holl geisiadau), sef yr un ganran o geisiadau ag a welwyd yn 2022-23 (89%).

### *Ceisiadau pellach*

Ceisiadau pellach oedd y 34% (4,054) arall o geisiadau a gyflwynwyd i awdurdodau lleol yn 2023-24, sydd ychydig yn llai na'r 35% a gyflwynwyd y flwyddyn ddiwethaf. Gwynedd yw'r unig awdurdod i beidio â chofnodi unrhyw geisiadau pellach. Ceredigion 48% (171), Bro Morgannwg 48% (182) a Wrecsam 48% (291) a gofnododd y gyfran uchaf o geisiadau pellach. Gweler Tabl 2.1.

O ran byrddau iechyd, ceisiadau pellach oedd y 5% (352) arall o geisiadau a gyflwynwyd yn 2023-24. Dangosir dadansoddiad o'r mathau o geisiadau yn Nhabl 2.2.

**Tabl 2.1**. Canran y mathau gwahanol o geisiadau ar gyfer pob awdurdod lleol yn 2023-24.

| *(Nifer y ceisiadau)* | **Safonol** | **Brys** | **Pellach** |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent *(277)* | 35% | 36% | 30% |
| Pen-y-bont ar Ogwr *(521)* | 53% | 3% | 43% |
| Caerffili *(619)* | 46% | 32% | 21% |
| Caerdydd *(993)* | 67% | 3% | 31% |
| Sir Gaerfyrddin *(584)* | 64% | 12% | 24% |
| Ceredigion *(357)* | 49% | 3% | 48% |
| Conwy *(441)* | 41% | 34% | 25% |
| Sir Ddinbych *(451)* | 50% | 5% | 45% |
| Sir y Fflint *(606)* | 49% | 8% | 42% |
| Gwynedd *(377)* | 87% | 13% | 0% |
| Ynys Môn *(291)* | 40% | 17% | 43% |
| Merthyr Tudful *(133)* | 64% | 17% | 19% |
| Sir Fynwy *(438)* | 18% | 63% | 19% |
| Castell-nedd Port Talbot *(704)* | 53% | 7% | 40% |
| Casnewydd *(701)* | 29% | 29% | 43% |
| Sir Benfro *(550)* | 41% | 13% | 46% |
| Powys *(666)* | 32% | 33% | 35% |
| Rhondda Cynon Taf *(604)* | 68% | 15% | 17% |
| Abertawe *(1,175)* | 58% | 4% | 37% |
| Torfaen *(382)* | 21% | 48% | 31% |
| Bro Morgannwg *(378)* | 48% | 3% | 48% |
| Wrecsam *(606)* | 0% | 52% | 48% |
| **Pob Awdurdod Lleol** | 47% | 19% | 34% |
| *(Nifer y ceisiadau)* | *5,565* | *2,235* | *4,054* |

**Tabl 2.2**. Canran y mathau gwahanol o geisiadau ar gyfer pob bwrdd iechyd yn 2023-24.

| *(Nifer y ceisiadau)* | **Safonol** | **Brys** | **Pellach** |
|---|---|---|---|
| Aneurin Bevan *(1,267)* | 4% | 94% | 2% |
| Betsi Cadwaladr *(2,004)* | 1% | 92% | 7% |
| Caerdydd a'r Fro *(835)* | 9% | 88% | 3% |
| Cwm Taf Morgannwg *(1,295)* | 12% | 81% | 7% |
| Hywel Dda *(820)* | 0% | 95% | 5% |
| Addysgu Powys *(366)* | 5% | 92% | 4% |
| Bae Abertawe *(896)* | 18% | 80% | 2% |
| **Pob Bwrdd Iechyd** | **6%** | **89%** | **5%** |
| *(Nifer y ceisiadau)* | *479* | *6,649* | *352* |

## 3. Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau i'w hasesu

### *Ceisiadau heb eu dyrannu[4]*

O blith y 11,854 o geisiadau a gafodd awdurdodau lleol, roedd 34% (4,015) yn dal i fod heb eu dyrannu ar 1 Ebrill 2024, sy'n welliant ar ffigwr y flwyddyn flaenorol o 38% (4,580). Nododd Pen-y-bont ar Ogwr, Ynys Môn a Wrecsam nad oedd ganddynt unrhyw geisiadau heb eu dyrannu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae Cyrff Goruchwylio llawer o awdurdodau lleol yn defnyddio adnoddau sgrinio i helpu i flaenoriaethu achosion brys a risg uchel. Fodd bynnag, ni lwyddodd lleiafrif o awdurdodau lleol i ddyrannu mwy na 60% o'r ceisiadau a gawsant yn 2023-24; mae hyn yn cynnwys Conwy, Gwynedd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy a Rhondda Cynon Taf. Mae prosesu ceisiadau mewn modd amserol yn agwedd bwysig ar sicrhau nad yw pobl yn wynebu oedi cyn i'w cais gael ei ddyrannu i asesydd. Mae hyn yn arwain at oedi cyn cwblhau asesiadau, oedi cyn rhoi awdurdodiadau, a chyfnodau estynedig posibl o amddifadu anghyfreithlon. Gweler Tabl 3.2.

O blith y 7,483 o geisiadau a gafodd byrddau iechyd, roedd 15% (1,096) yn dal i fod heb eu dyrannu ar 1 Ebrill 2024, sef 32% yn llai na ffigur y flwyddyn flaenorol 1,601). Gweler Tabl 3.1.

### *Ceisiadau a dynnwyd yn ôl*

Yn 2023-24, cafodd 13% (1,495) o'r ceisiadau a wnaed i awdurdodau lleol eu tynnu'n ôl cyn iddynt gael eu hasesu – yn debyg i'r flwyddyn ddiwethaf. Y prif resymau a roddwyd oedd bod y person wedi symud i gartref gofal arall, wedi dychwelyd adref, neu wedi marw. Pan fydd pobl yn symud i gartref gofal arall, rhaid i gais newydd gael ei wneud os oes angen trefniadau diogelu o hyd. Gall y bobl hyn fod wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid heb fod y trefniadau diogelu priodol ar waith. Gweler Tabl 3.1.

**Tabl 3.1**. Cyfran y ceisiadau a dynnwyd yn ôl neu a oedd heb eu dyrannu fesul awdurdod lleol yn 2023-24.

| *(Nifer y ceisiadau)* | **Tynnwyd yn ôl** | **Heb eu Dyrannu** |
|---|---|---|
| Blaenau Gwent *(143)* | 11% | 41% |
| Pen-y-bont ar Ogwr *(73)* | 14% | 0% |
| Caerffili *(435)* | 11% | 59% |
| Caerdydd *(438)* | 0% | 44% |
| Sir Gaerfyrddin *(121)* | 18% | 3% |
| Ceredigion *(201)* | 21% | 35% |
| Conwy *(377)* | 21% | 64% |
| Sir Ddinbych *(271)* | 18% | 42% |

[4] Cyfeirir at geisiadau heb eu dyrannu fel ceisiadau sydd ar y gweill ar y ffurflen casglu data am DoLS gyfredol.

| *(Nifer y ceisiadau)* | **Tynnwyd yn ôl** | **Heb eu Dyrannu** |
|---|---|---|
| Sir y Fflint *(391)* | 24% | 40% |
| Gwynedd *(237)* | 0% | 63% |
| Ynys Môn *(43)* | 15% | 0% |
| Merthyr Tudful *(116)* | 19% | 68% |
| Sir Fynwy *(321)* | 13% | 60% |
| Castell-nedd Port Talbot *(120)* | 10% | 7% |
| Casnewydd *(207)* | 16% | 14% |
| Sir Benfro *(332)* | 20% | 41% |
| Powys *(481)* | 14% | 58% |
| Rhondda Cynon Taf *(496)* | 19% | 63% |
| Abertawe *(258)* | 10% | 12% |
| Torfaen *(264)* | 12% | 58% |
| Bro Morgannwg *(141)* | 0% | 37% |
| Wrecsam *(44)* | 7% | 0% |
| **Pob Awdurdod Lleol** | **13%** | **34%** |
| *(Nifer y Ceisiadau)* | *1,495* | *4,015* |

Yn 2023-24, cafodd 49% (3,686) o'r ceisiadau a wnaed i fyrddau iechyd eu tynnu'n ôl cyn iddynt gael eu hasesu. Y prif resymau a roddwyd oedd bod y person wedi cael ei ryddhau neu wedi marw. Gweler Tabl 3.2.

**Tabl 3.2**. Cyfran y ceisiadau a dynnwyd yn ôl neu a oedd heb eu dyrannu fesul bwrdd iechyd yn 2023-24.

| *(Nifer y ceisiadau)* | **Tynnwyd yn ôl** | **Heb eu Dyrannu** |
|---|---|---|
| Aneurin Bevan *(1,267)* | 69% | 22% |
| Betsi Cadwaladr *(2,004)* | 65% | 8% |
| Caerdydd a'r Fro *(835)* | 0% | 71% |
| Cwm Taf Morgannwg *(1,292)* | 56% | 2% |
| Hywel Dda *(820)* | 68% | 2% |
| Addysgu Powys *(366)* | 63% | 5% |
| Bae Abertawe *(896)* | 0% | 0% |
| **Pob Bwrdd Iechyd** | **49%** | **15%** |
| *(Nifer y Ceisiadau)* | *3,686* | *1,096* |

### *Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau i'w hasesu*

O blith y 6,392 o geisiadau a wnaed i awdurdodau lleol a ddyrannwyd i'w hasesu, dim ond 25% (1,626) a ddyrannwyd o fewn saith diwrnod, o gymharu â 28% (1,857) y flwyddyn ddiwethaf.   Fodd bynnag, cafodd llai o geisiadau eu dyrannu ar ôl 28 diwrnod, sef 38% neu 2,456, o gymharu â 45% neu 2,933 o geisiadau yn 2022-23. Unwaith eto, ni chofnododd Gwynedd y dyddiadau dyrannu yn ei ddadansoddiad ar gyfer y flwyddyn hon. Gweler Tabl 3.3.

Wrth ystyried y cyfnod o amser a gymerodd awdurdodau lleol i ddyrannu ceisiadau i'w hasesu yn ôl y math o gais, ceisiadau am awdurdodiad safonol sydd â'r amseroedd aros hiraf. O blith y 2,545 o geisiadau safonol, cymerodd fwy na mis i ddyrannu 51% (1,301).  O blith y 942 o geisiadau safonol yn dilyn rhai brys, cymerodd fwy na 14 diwrnod i ddyrannu 48% (445).  O ran y 2,905 o geisiadau pellach, cymerodd fwy na mis i ddyrannu 30% (866) ohonynt. Gweler Tabl 3.3.

**Tabl 3.3.** Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau am DoLS i'w hasesu yn ôl math o gais ac awdurdod lleol yn 2023-24.

| | 1-7 diwrnod | 8-14 diwrnod | 15-28 diwrnod | 1-3 mis | 3-6 mis | Mwy na 6 mis |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Safonol** | | | |
| **Pob Awdurdod Lleol** | 13% | 12% | 23% | 35% | 12% | 4% |
| *Nifer y Ceisiadau* | *333* | *314* | *597* | *884* | *308* | *109* |
| | | | **Brys** | | | |
| **Pob Awdurdod Lleol** | 37% | 15% | 17% | 20% | 9% | 2% |
| *Nifer y Ceisiadau* | *352* | *145* | *156* | *187* | *83* | *19* |
| | | | **Pellach** | | | |
| **Pob Awdurdod Lleol** | 32% | 17% | 21% | 21% | 7% | 2% |
| *Nifer y Ceisiadau* | *941* | *499* | *599* | *600* | *209* | *57* |
| | | | **Pob Cais** | | | |
| **Pob Awdurdod Lleol** | 25% | 15% | 21% | 26% | 9% | 3% |
| *Nifer y Ceisiadau* | *1,626* | *958* | *1,352* | *1,671* | *600* | *185* |

O ran byrddau iechyd, o blith y 2,159 o geisiadau a ddyrannwyd i'w hasesu, cafodd 24% (514) eu dyrannu i'w hasesu o fewn saith diwrnod ar ôl i'r bwrdd iechyd gael y cais. Fodd bynnag, cymerodd fwy na 28 diwrnod i ddyrannu 36% (772) o'r ceisiadau. Gweler Tabl 3.4.

O blith y 176 o geisiadau safonol, cymerodd fwy na mis i ddyrannu 29% (50). O blith y 1,750 o geisiadau safonol yn dilyn rhai brys, cymerodd fwy na 14 diwrnod i

ddyrannu 65% (1,133). O ran y 221 o geisiadau pellach, cymerodd fwy na mis i ddyrannu 4% (9) ohonynt. Gweler Tabl 3.4.


**Tabl 3.4**. Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau am DoLS i'w hasesu yn ôl math o gais a bwrdd iechyd yn 2023-24.

| | 1-7 diwrnod | 8-14 diwrnod | 15-28 diwrnod | 1-3 mis | 3-6 mis | Mwy na 6 mis |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Safonol** | | | |
| **Pob Bwrdd Iechyd** | 16% | 23% | 33% | 27% | 2% | 0% |
| *Nifer y Ceisiadau* | *28* | *40* | *58* | *47* | *3* | *0* |
| | | | **Brys** | | | |
| **Pob Bwrdd Iechyd** | 20% | 15% | 24% | 39% | 2% | 0% |
| *Nifer y Ceisiadau* | *348* | *266* | *427* | *677* | *29* | *3* |
| | | | **Pellach** | | | |
| **Pob Bwrdd Iechyd** | 62% | 21% | 12% | 5% | 0% | 0% |
| *Nifer y Ceisiadau* | *137* | *47* | *26* | *10* | *1* | *0* |
| | | | **Pob Cais** | | | |
| **Pob Bwrdd Iechyd** | 24% | 16% | 24% | 34% | 2% | 0% |
| *Nifer y Ceisiadau* | *514* | *354* | *519* | *736* | *33* | *3* |

### *Yr amser a gymerodd i ddyrannu asesiadau safonol*

Mae cryn amrywio rhwng awdurdodau lleol wrth ddyrannu ceisiadau safonol. Yn 2023-24, Sir y Fflint, unwaith eto, a gofnododd y gyfran uchaf o 88% (101) o geisiadau a ddyrannwyd i asesydd o fewn 28 diwrnod. Er mwyn cymharu, cymerodd fwy na chwe mis i 4% (109) o'r ceisiadau safonol a wnaed i awdurdodau lleol gael eu dyrannu i asesydd. Gweler Ffigur 3.1.


**Ffigur 3.1**. Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau safonol am DoLS i'w hasesu yn ôl awdurdod lleol yn 2023-24[5].




O ran byrddau iechyd, o blith y 176 o geisiadau safonol a ddyrannwyd, cymerodd fwy na 28 diwrnod i ddyrannu 28% (50). Gweler Ffigur 3.2

[5] Ni chafodd Wrecsam unrhyw geisiadau am awdurdodiad safonol ac nid yw wedi'i gynnwys yn Ffigur 3.1.


**Ffigur 3.2**. Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau safonol am DoLS i'w hasesu yn 2023-24, yn ôl bwrdd iechyd.




### *Yr amser a gymerodd i ddyrannu asesiadau safonol yn dilyn rhai brys*


Mae'n gadarnhaol bod lleiafrif o awdurdodau lleol wedi llwyddo i ddyrannu'r rhan fwyaf o'u ceisiadau safonol yn dilyn rhai brys o fewn 14 diwrnod – sef 100% (14) o geisiadau gan Ben-y-bont ar Ogwr, 100% (6) gan Geredigion, 100% (19) gan Sir Ddinbych, 100% (49) gan Abertawe a 97% (34) gan Gastell-nedd Port Talbot. Gweler Ffigur 3.3.

**Ffigur 3.3**. Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau safonol yn dilyn rhai brys am DoLS i'w hasesu yn ôl awdurdod lleol yn 2023-24.




O ran byrddau iechyd, o blith y 1,750 o geisiadau safonol yn dilyn rhai brys a ddyrannwyd i'w hasesu, ni chafodd 65% (1,136) eu dyrannu o fewn yr uchafswm cyfnod a ganiateir, sef 14 diwrnod. Gweler Ffigur 3.4.


**Ffigur 3.4**. Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau safonol yn dilyn rhai brys am DoLS i'w hasesu yn 2023-24, yn ôl bwrdd iechyd.




### *Yr amser a gymerodd i ddyrannu asesiadau pellach*


Perfformiodd y mwyafrif o'r awdurdodau lleol yn well am ddyrannu ceisiadau pellach o fewn 28 diwrnod na rhai safonol. Dyrannodd Sir Fynwy 99% (73) o'i geisiadau pellach o fewn y cyfnod hwn, a'r cyfraddau gorau wedi hynny am ddyrannu ceisiadau pellach oedd 97% (111) gan Ynys Môn, 97% (279) gan Gasnewydd, a 97% (86) gan Dorfaen. I'r gwrthwyneb, cymerodd fwy na chwe mis i ddyrannu 24% (15) o'r ceisiadau am awdurdodiad pellach a wnaed i Sir Gaerfyrddin. Gweler Ffigur 3.5.

**Ffigur 3.5.** Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau pellach am DoLS i'w hasesu yn ôl awdurdod lleol yn 2023-24.




O ran byrddau iechyd, o blith y 221 o geisiadau pellach i'w dyrannu i'w hasesu, cymerodd fwy na 28 diwrnod i ddyrannu 5% (11). Gweler Ffigur 3.6.

**Ffigur 3.6**. Yr amser a gymerodd i ddyrannu ceisiadau pellach am DoLS i'w hasesu yn 2023-24, yn ôl bwrdd iechyd.



## 4. Cwblhau asesiadau

Drwy gymharu'r dyddiad y cafodd y cais am DoLS ei ddyrannu i asesydd â dyddiad y penderfyniad (i roi neu wrthod awdurdodiad), gallwn bennu bod 48% (5,640) o'r ceisiadau a wnaed i awdurdodau lleol wedi arwain at asesiad wedi'i gwblhau yn ystod 2023-24. Er ein bod yn gwybod bod y mwyafrif o awdurdodau lleol wedi cynyddu eu capasiti i gwblhau asesiadau a bod ganddynt gronfa o aseswyr budd pennaf yn gweithio ochr yn ochr â thîm dynodedig, mae nifer yr asesiadau DoLS a gwblhawyd yn ystod 2023-24 ychydig yn llai na'r 49% (5,959) o asesiadau a gwblhawyd yn ystod 2022-23. Fodd bynnag, ni welwyd y lleihad hwn ym mhob awdurdod lleol, a chofnododd 13 o awdurdodau lleol gynnydd yn nifer yr asesiadau a gwblhawyd. Drwy ein gwaith monitro parhaus, gwyddom fod llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru hefyd yn gwneud ceisiadau amserol i'r Llys Amddiffyn ac yn rhagweithiol o ran nodi sefyllfaoedd lle mae person nad oes ganddo alluedd meddyliol i gydsynio i'r trefniadau gofal a chymorth a wneir yn cael ei amddifadu o'i ryddid mewn lleoliadau cymunedol.

Yn 2023-24, cwblhaodd awdurdodau lleol asesiadau ar gyfer 88% (5,640 allan o 6,392) o'r ceisiadau a ddyrannwyd. Fodd bynnag, dim ond 39% (2,221) o'r rhain a gwblhawyd o fewn y cyfnod gofynnol. Ni ddarparodd Gwynedd unrhyw wybodaeth am ddyddiadau y gellid ei chynnwys yn y dadansoddiad.


O ran byrddau iechyd, cofnodwyd bod 29% (2,159) o'r ceisiadau am DoLS wedi cael eu dyrannu i un asesydd neu ail asesydd.

### *Cwblhau asesiadau safonol*

Yn 2023-24, cwblhaodd awdurdodau lleol 2,196 o asesiadau ar gyfer awdurdodiad safonol, ond dim ond 35% (768) a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol o 21 diwrnod.


Cwblhaodd Sir Fynwy 100% (13) o'r asesiadau o fewn y cyfnod statudol a chwblhaodd awdurdodau lleol eraill megis Caerffili 94% (32), Torfaen 88% (7) a Sir Benfro 87% (60) gyfran uchel o'r asesiadau o fewn y cyfnod statudol. I'r gwrthwyneb, ni chwblhaodd Merthyr Tudful yr un o'i asesiadau safonol o fewn 21 diwrnod a dim ond 6% (34) a gwblhaodd Abertawe. Caerdydd a Chastell-nedd Port Talbot a gwblhaodd y nifer uchaf o asesiadau safonol – 154 a 131 yn y drefn honno, ond fel y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, ni chafodd hanner yr asesiadau safonol eu cwblhau o fewn y cyfnod statudol o 21 diwrnod. Gweler Ffigur 4.1.

**Ffigur 4.1**. Nifer yr asesiadau safonol a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol (21 diwrnod) yn ôl awdurdod lleol yn 2023-24.




O ran byrddau iechyd, o blith y 176 o geisiadau safonol a aseswyd yn 2023-24, cafodd 62% (109) eu cwblhau o fewn y cyfnod statudol o 21 diwrnod. Gweler Ffigur 4.2.

**Ffigur 4.2**. Nifer yr asesiadau safonol a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol (21 diwrnod) yn ôl bwrdd iechyd yn 2023-24.





### *Cwblhau asesiadau safonol yn dilyn rhai brys*

Yn 2023-24, cwblhaodd awdurdodau lleol 823 o asesiadau ar gyfer ceisiadau safonol yn dilyn rhai brys, a chafodd 49% (400) ohonynt eu cwblhau o fewn y cyfnod gofynnol o 7-14 diwrnod. Mae tua hanner yr awdurdodiadau brys a gymeradwyir gan awdurdodau rheoli yn dod i ben cyn i'r asesiadau gofynnol gael eu cynnal.


Mae'r awdurdodau lleol a gwblhaodd y gyfran uchaf o asesiadau safonol yn dilyn rhai brys yn cynnwys – Abertawe 100% (44), Sir Ddinbych 95% (20), Pen-y-bont ar Ogwr 92% (12), Sir Fynwy 86% (25) a Chaerffili 85% (23).  Wrecsam a gwblhaodd y nifer mwyaf o asesiadau brys yng Nghymru, gan gwblhau 42% (110) o fewn 7-14 diwrnod. Fodd bynnag, ni lwyddodd Bro Morgannwg, Powys na Rhondda Cynon Taf i wneud hynny o fewn y cyfnod statudol. Gweler Ffigur 4.3.

**Ffigur 4.3**. Nifer yr asesiadau safonol yn dilyn rhai brys a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol (7-14 diwrnod) yn ôl awdurdod lleol yn 2023-24.




O ran byrddau iechyd, cafodd 1,750 o geisiadau safonol yn dilyn rhai brys eu dyrannu i'w hasesu yn 2023-24. Daeth nifer o awdurdodiadau brys i ben cyn i'r asesiadau gofynnol gael eu cynnal gan mai dim ond 35% (614) o'r asesiadau a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol o 7-14 diwrnod. Gweler Ffigur 4.4.

**Ffigur 4.4**. Nifer yr asesiadau safonol yn dilyn rhai brys a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol (7-14 diwrnod) yn ôl bwrdd iechyd yn 2023-24.





### *Cwblhau asesiadau pellach*

Yn 2023-24, cwblhaodd awdurdodau lleol 2,621 o asesiadau pellach, a chafodd 48% (1,265) eu hasesu o fewn y cyfnod statudol o 21 diwrnod, i fyny o 43% y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r awdurdodau lleol a gwblhaodd y nifer mwyaf o asesiadau pellach o fewn 21 diwrnod yn cynnwys: Wrecsam 86% (219), Sir Fynwy 86% (62), Casnewydd 81% (223) a Chaerffili 81% (95).


Cafodd Merthyr Tudful bum cais pellach i'w hasesu ond ni lwyddodd i'w cwblhau o fewn y cyfnod statudol. Cafodd Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, a Phowys hefyd hi'n anodd cwblhau'r asesiadau hyn o fewn 21 diwrnod. Gweler Ffigur 4.5.

**Ffigur 4.5**. Nifer yr asesiadau pellach a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol (21 diwrnod) yn ôl awdurdod lleol yn 2023-24




O ran byrddau iechyd, cafodd 221 o geisiadau pellach eu hasesu 2023-24, a chafodd 92% (204) eu cwblhau o fewn y cyfnod statudol o 21 diwrnod. Gweler Ffigur 4.6.

**Ffigur 4.6**. Nifer yr asesiadau pellach a gwblhawyd o fewn y cyfnod statudol (21 diwrnod) yn ôl bwrdd iechyd yn 2023-24.




## 5. Canlyniad asesiadau

### *Ceisiadau a awdurdodwyd*


Yn 2023-24, asesodd awdurdodau lleol 5,640 o geisiadau am DoLS, sef 5% yn llai na'r 5,959 o geisiadau a aseswyd y flwyddyn ddiwethaf. O blith y rhain, cafodd 96% (5,439) eu hawdurdodi gan Gyrff Goruchwylio, sef cynnydd bach o gymharu â 94% yn y flwyddyn flaenorol. Gweler Ffigur 5.1.

**Ffigur 5.1**. Cyfran y ceisiadau a awdurdodwyd gan bob awdurdod lleol yn 2023-24



O ran byrddau iechyd, cafodd 2,696 o geisiadau am DoLS eu hasesu yn 2023-24, o gymharu â 2,024 yn 2022-23. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd canrannol o 33% (672) yn nifer yr asesiadau a gwblhawyd gan fyrddau iechyd yng Nghymru. O blith y 2,696 o geisiadau a wnaed i fyrddau iechyd a gafodd eu hasesu, aeth tua 69% (1,858) ymlaen i gael eu hawdurdodi gan Gyrff Goruchwylio. Mae'r ffigur hwn yn gynnydd o gymharu â'r 52% (1,054) o geisiadau a gafodd eu hasesu a'u hawdurdodi yn y flwyddyn flaenorol. Gweler Ffigur 5.2.

**Ffigur 5.2**. Cyfran y ceisiadau a awdurdodwyd gan bob bwrdd iechyd yn 2023-24.





Gall yr asesydd budd pennaf awgrymu amodau ar gyfer yr awdurdodiad. Gallai'r rhain gynnwys materion cyswllt, ystyriaethau diwylliannol, neu bryderon sylweddol eraill yn ymwneud ag amddifadu o ryddid. Os nad eir i'r afael â'r materion hynny, efallai nad yw amddifadu o ryddid er budd pennaf y person. Gall hefyd argymell amodau er mwyn osgoi amddifadu o ryddid yn y dyfodol.

O blith y 5,439 o geisiadau a awdurdodwyd gan awdurdodau lleol, roedd amodau ynghlwm wrth 58% (3,135). Wrth ddadansoddi yn ôl math o gais, roedd amodau

ynghlwm wrth 71% (542) o geisiadau safonol yn dilyn rhai brys, o gymharu â 57% (1,172) ar gyfer ceisiadau safonol a 55% (1,421) ar gyfer ceisiadau pellach[6].

Sir Benfro (85%, 175), Blaenau Gwent (82%, 103) a Chasnewydd (81%, 347) a gofnododd y gyfran uchaf o awdurdodiadau heb unrhyw amodau ynghlwm wrthynt. Dylai rhai awdurdodau lleol archwilio eu hymarfer presennol er mwyn sicrhau y caiff amodau eu defnyddio lle bo angen a'u bod yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl, gan gynnwys lleihau neu roi'r gorau i'r amddifadu. Gweler Ffigur 5.3.


**Ffigur 5.3**. Nifer y ceisiadau a awdurdodwyd yr oedd amodau ynghlwm wrthynt yn ôl awdurdod lleol.




[6] Ni chofnodwyd unrhyw wybodaeth am amodau ar gyfer 35 o'r asesiadau a awdurdodwyd.

O ran byrddau iechyd, o blith y 1,858 o geisiadau a awdurdodwyd, roedd amodau ynghlwm wrth 58% (1072). Wrth ddadansoddi yn ôl math o gais, roedd amodau ynghlwm wrth 90% (132) o geisiadau safonol, o gymharu â 74% (782) o geisiadau safonol yn dilyn rhai brys a 65% (110) o geisiadau pellach. Gweler Ffigur 5.4.

**Ffigur 5.4**. Canran y ceisiadau a awdurdodwyd yr oedd amodau ynghlwm wrthynt yn ôl bwrdd iechyd.




### *Ceisiadau a wrthodwyd a'r rheswm dros hynny*

Yn 2023-24, dim ond 3% (414) o geisiadau am DoLS a wrthodwyd gan awdurdodau lleol. Roedd y rhesymau dros wrthod yn amrywio'n fawr. O blith y rhain:

- cafodd 56% (203) eu gwrthod am nad oedd yr amod galluedd meddyliol wedi'i fodloni, o gymharu â 69% y flwyddyn ddiwethaf.
- cafodd 25% (92) eu gwrthod ar sail cymhwysedd.
- cafodd 15% (56) eu gwrthod am nad oeddent yn achosion o amddifadu, o gymharu â 2% y flwyddyn ddiwethaf, gyda Chaerdydd yn gwrthod 32 o geisiadau am y rheswm hwn.

Ni chafodd yr un cais ei wrthod gan Wynedd na Merthyr Tudful. Gweler Tabl 5.1.

**Tabl 5.1.** Cyfran y ceisiadau na chawsant eu hawdurdodi yn ôl rheswm dros wrthod fesul awdurdod lleol yn 2023-24.

| | **Gwrthodwyd** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| *(Nifer y ceisiadau)* | Budd pennaf | Cymhwysedd | Galluedd Meddyliol | Iechyd Meddwl | Nid yn achos o amddifadu |
| Blaenau Gwent *(6)* | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| Pen-y-bont ar Ogwr *(16)* | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| Caerffili *(5)* | 0% | 0% | 80% | 0% | 20% |
| Caerdydd *(32)* | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% |
| Sir Gaerfyrddin *(89)* | 4% | 85% | 10% | 0% | 0% |
| Ceredigion *(5)* | 0% | 20% | 40% | 0% | 40% |
| Conwy *(11)* | 9% | 0% | 91% | 0% | 0% |
| Sir Ddinbych *(8)* | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| Sir y Fflint *(15)* | 0% | 13% | 87% | 0% | 0% |
| Gwynedd *(0)* | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Ynys Môn *(5)* | 0% | 20% | 60% | 0% | 20% |
| Merthyr Tudful *(0)* | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Sir Fynwy *(4)* | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| Castell-nedd Port Talbot *(28)* | 4% | 7% | 79% | 4% | 7% |
| Casnewydd *(37)* | 0% | 0% | 89% | 0% | 11% |
| Sir Benfro *(10)* | 20% | 0% | 60% | 20% | 0% |
| Powys *(15)* | 0% | 40% | 47% | 0% | 13% |
| Rhondda Cynon Taf *(1)* | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% |
| Abertawe *(37)* | 0% | 0% | 92% | 3% | 5% |
| Torfaen *(3)* | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| Bro Morgannwg *(8)* | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% |
| Wrecsam *(30)* | 3% | 13% | 77% | 3% | 3% |
| **Pob Awdurdod Lleol** | **2%** | **25%** | **56%** | **1%** | **15%** |
| *(Nifer y Ceisiadau)* | *9* | *92* | *203* | *5* | *56* |

O ran y ceisiadau a wnaed i fyrddau iechyd, cafodd 31% (838) o'r ceisiadau a aseswyd eu gwrthod yn 2023-24, ac roedd y rhesymau dros hynny yn amrywio rhwng y byrddau iechyd. Yn achos y mwyafrif o'r ceisiadau a wrthodwyd, roedd y rhesymau dros eu gwrthod yn ymwneud â'r ffaith nad oedd yr amod galluedd meddyliol wedi'i fodloni, hynny yw bod gan y person y galluedd i gytuno i unrhyw amddifadu, gyda hyn yn cael ei nodi fel y prif reswm dros wrthod 72% (167) o'r ceisiadau a wrthodwyd. Mae canran y ceisiadau a wrthodwyd ar sail galluedd meddyliol yn debyg i'r ganran a wrthodwyd yn y flwyddyn flaenorol, sef 72% (167). Gweler Tabl 5.2.

**Tabl 5.2.** Cyfran y ceisiadau na chawsant eu hawdurdodi yn ôl rheswm dros wrthod fesul bwrdd iechyd yn 2023/24.

| | **Gwrthodwyd** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| *(Nifer y ceisiadau)* | Budd pennaf | Cymhwysedd | Galluedd Meddyliol | Iechyd Meddwl | Nid yn achos o amddifadu |
| Aneurin Bevan *(13)* | 0% | 15% | 77% | 8% | 0% |
| Betsi Cadwaladr *(60)* | 0% | 43% | 52% | 5% | 0% |
| Caerdydd a'r Fro *(0)* | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Cwm Taf Morgannwg *(63)* | 0% | 0% | 86% | 14% | 0% |
| Hywel Dda *(72)* | 0% | 17% | 65% | 14% | 4% |
| Addysgu Powys *(1)* | 0% | 0% | 100% | 0% | 0% |
| Bae Abertawe *(74)* | 0% | 0% | 77% | 18% | 5% |
| **Pob Bwrdd Iechyd** | **0%** | **14%** | **71%** | **13%** | **2%** |
| *(Nifer y Ceisiadau)* | *0* | *40* | *200* | *36* | *7* |

## 6. Hyd awdurdodiad

### *Hyd awdurdodiad*


Mae'r Cod Ymarfer[7] yn nodi y dylai unrhyw awdurdodiad fod am gyn lleied o amser â phosibl, a dim ond cyhyd ag y bydd y person perthnasol yn bodloni'r meini prawf gofynnol.

Yn 2023-24, cyfrifwyd cyfnod 5,406 o awdurdodiadau awdurdodau lleol. Yn debyg i flynyddoedd blaenorol, cafodd llawer eu hawdurdodi am fwy na naw mis:

- 85% (2,184) o awdurdodiadau pellach
- 80% (1,636) o awdurdodiadau safonol
- 64% (496) awdurdodiadau safonol yn dilyn rhai brys

Gweler Ffigur 6.1.


**Ffigur 6.1**. Cyfnod arfaethedig awdurdodiadau yn ôl awdurdod lleol yn 2023-24.




[7] Gweler http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130104224411/http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_085476

Yn 2023-24, awdurdodiadau am gyfnod o chwe mis neu lai oedd 93% (1,559) o'r awdurdodiadau a wnaed gan fyrddau iechyd, ac awdurdodiadau am gyfnod o dri mis neu lai oedd 31% (514) ohonynt. Dim ond 1% (25) o'r awdurdodiadau oedd am flwyddyn gyfan. Gweler Ffigur 6.2.

**Ffigur 6.2.** Cyfnod arfaethedig awdurdodiadau yn ôl bwrdd iechyd yn 2023-24.




## 7. Nodweddion unigol

### *Ceisiadau yn ôl Oedran, Rhywedd ac Ethnigrwydd*

Mae pobl dros 65 oed yn cyfrif am 87% (10,357) o'r ceisiadau am DoLS a wnaed i awdurdodau lleol ledled Cymru, ac mae menywod yn cyfrif am 62% (7,371) o'r holl geisiadau a wnaed, gyda'r mwyafrif ohonynt yn y grwpiau oedran hŷn.

Fel y gwelwyd mewn blynyddoedd blaenorol, mae dynion yn cyfrif am nifer mwy o'r ceisiadau hyd at 64 oed, ond yn y grwpiau oedran hŷn, mae mwy o geisiadau ar gyfer menywod. Gweler Ffigur 7.1.


**Ffigur 7.1**. Dadansoddiad o oedran yn ôl rhywedd mewn awdurdodau lleol ar gyfer pob cais yn 2023-24




O ran byrddau iechyd, y prif grŵp o bobl y gwnaed cais am DoLS ar eu cyfer oedd oedolion hŷn, ac roedd bron 88% (6,575) o'r ceisiadau a wnaed i fyrddau iechyd yn 2023-24 yn geisiadau ar gyfer rhywun dros 65 oed.

Roedd rhaniad o ran rhywedd ar draws yr holl grwpiau oedran, gyda 47% (3,510) o fenywod a 53% (3,924) o ddynion. Mae'r gwahaniaethau o ran demograffeg rhwng ardaloedd yn adlewyrchu, i raddau helaeth, y poblogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir gan y lleoliadau yn yr ardaloedd hynny. Gweler Ffigur 7.2.

**Ffigur 7.2**. Dadansoddiad o oedran yn ôl rhywedd mewn byrddau iechyd ar gyfer pob cais yn 2023-24




### *Ethnigrwydd*

Cafodd dros dri chwarter (9,157) y ceisiadau am DoLS a wnaed i awdurdodau lleol eu gwneud ar gyfer unigolion Gwyn, a chafodd llai nag 1% (42) eu gwneud ar gyfer pobl o gefndir Asiaidd, Du neu Gymysg. Yn yr un modd, o ran byrddau iechyd, ar gyfer unigolion Gwyn y gwnaed y gyfran fwyaf o geisiadau am DoLS yn 2023-24, sef 84% (6,178) o'r holl geisiadau. Cafodd llai nag 1% (19) o'r ceisiadau eu gwneud ar gyfer pobl o gefndir Asiaidd, Du neu Gymysg. Mae iechyd meddwl gwael a/neu drefniant cadw ar ryw ffurf neu'i gilydd yn cael effaith anghymesur ar bobl o gefndir Du neu Ethnig Leiafrifol. Mae cofnodi ethnigrwydd yn faes y mae angen ei wella gan nad yw 22% (2,655) o'r awdurdodau lleol a 16% (1,218) o'r Byrddau Iechyd yn cofnodi ethnigrwydd yr ymgeisydd ar hyn o bryd. Mae'r ffaith nad yw'r wybodaeth fwyaf sylfaenol y cael ei chofnodi yn golygu nad oes gennym ddealltwriaeth glir o'r ffeithiau sylfaenol hyd yn oed.

.

## 8. Monitro a Chymorth

### *Adolygiadau*

Pan fydd person wedi'i amddifadu o'i ryddid, rhaid i'r awdurdod rheoli wneud cais am adolygiad os bydd yn ymddangos na chaiff un neu fwy o'r gofynion cymhwyso eu bodloni mwyach.

Yn ystod 2023-24, cafodd awdurdodiadau 46 o bobl mewn awdurdodau lleol eu hadolygu, a chafodd dau ohonynt eu hadolygu mwy nag unwaith. Mae hyn yn cynrychioli 1% o'r holl geisiadau a awdurdodwyd gan awdurdodau lleol.

Yn ystod 2023-24, cafodd awdurdodiadau 11 o bobl mewn byrddau iechyd eu hadolygu. Mae hyn yn cynrychioli 1% o'r holl geisiadau a awdurdodwyd gan fyrddau iechyd.

### *Cynrychiolaeth*

Rhaid i'r Cyrff Goruchwylio sicrhau y caiff pobl eu cefnogi a'u cynrychioli mewn materion sy'n ymwneud â'u hamddifadu o'u rhyddid, a rhaid i'r person y gwneir cais ar ei gyfer gael ei gynrychioli gan berson enwebedig. Yn 2023-24, roedd perthynas, ffrind neu ofalwr yn cynrychioli'r person y gwnaed cais ar ei gyfer yn achos 58% (3,309) o awdurdodiadau awdurdodau lleol 61% (1,129) o awdurdodiadau byrddau iechyd

Os nad oes unigolyn annibynnol ar gael i gynrychioli'r person, rhaid i Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol neu gynrychiolydd cyflogedig gael ei benodi. Cofnododd awdurdodau lleol fod cynrychiolydd cyflogedig wedi'i benodi ar gyfer 41% o'r awdurdodiadau (2,342), a chofnododd byrddau iechyd fod hyn yn wir ar gyfer 38% (707) o awdurdodiadau. Ni chofnodwyd unrhyw fath o gynrychiolaeth ar gyfer tua 1% (28) o awdurdodiadau awdurdodau lleol ac 1% (22) o awdurdodiadau byrddau iechyd.

### *Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol*

Mae'r Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol yn chwarae rôl ddiogelu bwysig i sicrhau bod y person a'i gynrychiolydd yn deall eu hawliau pan gaiff asesiadau eu cynnal ac ar ôl i awdurdodiad gael ei gymeradwyo.

O blith y 5,679 o geisiadau a awdurdodwyd gan awdurdodau lleol, roedd 4% (203) yn defnyddio Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol a benodwyd o dan Adran 39A, roedd llai nag 1% (2) yn defnyddio Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol a benodwyd o dan Adran 39C, ac roedd llai na 3% (172) yn defnyddio Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol a benodwyd o dan Adran 39D. Mae'r niferoedd hyn yn amrywio yn ôl awdurdod lleol. Castell-nedd Port Talbot oedd â'r nifer mwyaf o Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol a benodwyd o dan Adran 39A (35% neu 72) a'r nifer mwyaf o Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol a benodwyd o dan Adran

39D (63% neu 109). Dim ond Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe a gofnododd un Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol a benodwyd o dan Adran 39C.

O blith y 1,858 o geisiadau a awdurdodwyd gan fyrddau iechyd, roedd 5% (98) yn defnyddio Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol a benodwyd o dan Adran 39A, roedd 1% (25) yn defnyddio Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol a benodwyd o dan Adran 39D, ac nid oedd yr un ohonynt yn defnyddio Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol a benodwyd o dan Adran 39C. Roedd hyn yn amrywio rhwng byrddau iechyd, gyda'r mwyafrif o Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol wedi'u penodi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe (87).

### *Y Llys Gwarchod*

Gall y person, neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ei ran, wneud cais i'r Llys Gwarchod cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud ynglŷn â chais neu ar ôl i awdurdodiad gael ei roi.

Yn 2023-24, cafodd 92 o awdurdodiadau awdurdodau lleol eu hatgyfeirio at y Llys Gwarchod, o gymharu â 104 yn 2022-23. Mae nifer yr atgyfeiriadau wedi bod yn lleihau dros y tair blynedd diwethaf a dim ond 2% o'r holl awdurdodiadau ar gyfer DoLS sy'n cael eu hatgyfeirio erbyn hyn. Rhondda Cynon Taf ac Abertawe a gofnododd y nifer mwyaf o atgyfeiriadau. Fodd bynnag, dros y tair blynedd diwethaf, ni chofnododd Blaenau Gwent, Caerdydd, Castell-nedd Port Talbot na Bro Morgannwg unrhyw atgyfeiriadau. Gweler Tabl 8.1.

**Tabl 8.1.** Cyfran yr atgyfeiriadau a wnaed gan awdurdodau lleol at y Llys Gwarchod yn ystod 2021-24.

| | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1.0% | 2.9% | 4.3% |
| Caerffili | 0.0% | 0.0% | 2.2% |
| Caerdydd | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Sir Gaerfyrddin | 10.5% | 7.7% | 3.3% |
| Ceredigion | 3.8% | 12.5% | 6.5% |
| Conwy | 0.0% | 0.0% | 4.3% |
| Sir Ddinbych | 5.7% | 3.8% | 5.4% |
| Sir y Fflint | 19.0% | 15.4% | 8.7% |
| Gwynedd | 1.9% | 0.0% | 0.0% |
| Ynys Môn | 0.0% | 6.7% | 9.8% |
| Merthyr Tudful | 0.0% | 1.9% | 2.2% |
| Sir Fynwy | 1.9% | 0.0% | 0.0% |
| Castell-nedd Port Talbot | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Casnewydd | 5.7% | 2.9% | 5.4% |
| Sir Benfro | 0.0% | 1.0% | 0.0% |

| | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|
| Powys | 14.3% | 7.7% | 5.4% |
| Rhondda Cynon Taf | 16.2% | 12.5% | 16.3% |
| Abertawe | 11.4% | 5.8% | 16.3% |
| Torfaen | 1.0% | 1.9% | 4.3% |
| Bro Morgannwg | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Wrecsam | 7.6% | 17.3% | 5.4% |
| Cyfanswm yr atgyfeiriadau | 105 | 104 | 92 |
| **Cyfran yr atgyfeiriadau** | **2.2%** | **1.9%** | **1.6%** |

Cafodd cyfanswm o 17 o awdurdodiadau eu hatgyfeirio gan fyrddau iechyd at y Llys Gwarchod yn 2023-24. Mae'r ffigur hwn ychydig yn is na ffigurau'r blynyddoedd diwethaf, sef 22 yn 2022-23, 32 yn 2021-22 a 26 yn 2020-21. O Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda y daeth y mwyafrif o'r atgyfeiriadau y flwyddyn hon (11). Gweler Tabl 8.2.

**Tabl 8.2**. Cyfran yr atgyfeiriadau a wnaed gan fyrddau iechyd i'r Llys Gwarchod yn ystod 2020-24.

| | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 |
|---|---|---|---|
| Aneurin Bevan | 1.0% | 9.6% | 1.0% |
| Betsi Cadwaladr | 5.1% | 2.3% | 1.0% |
| Caerdydd a'r Fro | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Cwm Taf Morgannwg | 4.8% | 2.4% | 0.0% |
| Hywel Dda | 0.0% | 0.0% | 6.2% |
| Addysgu Powys | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Bae Abertawe | 0.0% | 0.0% | 0.0% |
| Cyfanswm yr atgyfeiriadau | 32 | 22 | 17 |
| **Cyfran yr atgyfeiriadau** | **2.6%** | **2.1%** | **0.9%** |

## Atodiad i'r Adroddiad

### *Ansawdd Data*

Defnyddir y data yn yr adroddiad hwn i fonitro'r defnydd o DoLS ledled Cymru. Fe'u cyflwynir gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd i AGC. Fodd bynnag, nid yw'r data hyn wedi'u dilysu gan AGC nac AGIC, ac mae'n bosibl bod anghysondebau neu fylchau o ganlyniad i arferion casglu data gwahanol.

Efallai fod nifer bach o achosion lle mae ceisiadau wedi'u labelu'n amhriodol fel rhai Safonol neu Frys, ac efallai nad yw'r canlyniadau'n gwbl gywir.

Mewn rhai achosion, efallai fod y gwerthoedd unigol a gyflwynwyd mewn ffigur yn wahanol i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

### *Terminoleg*

Lluniwyd yr adroddiad i adlewyrchu canllawiau ysgrifennu AGC cymaint â phosibl. Gellir dehongli'r geiriau canlynol fel a ganlyn:

- Bron pob un: heb fawr ddim eithriadau
- Rhan fwyaf: 90% neu fwy
- Llawer: 70% neu fwy
- Mwyafrif: dros 60%
- Hanner: 50%
- Tua hanner: yn agos at 50%
- Lleiafrif: llai na 40%
- Ychydig: llai na 20%
- Ychydig iawn: llai na 10%

### *Adborth ar yr adroddiad hwn*

Rydym yn awyddus i glywed gan bobl sy'n defnyddio ein hystadegau. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn neu ei gynhyrchion cysylltiedig, byddem yn eu croesawu'n fawr. E-bostiwch CIWInformation@gov.wales neu AGIC.PIM@llyw.cymru.

## *Rhestr Termau: Termau allweddol a ddefnyddir yn yr Adroddiad Monitro DoLS*

| | |
|---|---|
| **Asesiad at ddiben Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid** | Rhaid i bob un o'r chwe asesiad fod yn gadarnhaol er mwyn i awdurdodiad gael ei roi. |
| • **Oedran** | Asesu a yw'r person perthnasol wedi cyrraedd 18 oed. |
| • **Asesiad budd pennaf** | Asesu a yw amddifadu o ryddid er budd pennaf y person perthnasol, yn angenrheidiol er mwyn atal niwed i'r person, ac yn ymateb cymesur i'r tebygolrwydd o'r niwed hwnnw a'i ddifrifoldeb. Rhaid i Aseswr Budd Pennaf benderfynu ar hyn. |
| • **Asesiad cymhwysedd** | Asesu p'un a yw person yn anghymwys i gael awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol ai peidio, gan y byddai'r awdurdodiad yn mynd yn groes i ofynion sydd wedi'u gosod, neu a allai gael eu gosod, ar y person o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. |
| • **Asesiad galluedd meddyliol** | Asesu p'un a oes gan berson y galluedd i benderfynu a ddylai fynd i ysbyty neu gartref gofal penodol er mwyn derbyn gofal neu driniaeth, ai peidio. |
| • **Asesiad iechyd meddwl** | Asesu p'un a oes gan berson anhwylder meddyliol ai peidio. Ymarferydd meddygol ddylai benderfynu hyn. |
| • **Asesiad dim gwrthodiad** | Asesu a oes unrhyw awdurdod arall yn bodoli i wneud penderfyniadau ar ran y person perthnasol a fyddai'n atal awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol rhag cael ei roi. Gallai hyn gynnwys unrhyw benderfyniad dilys a wnaed ymlaen llaw, neu benderfyniad dilys a wnaed gan ddirprwy neu o dan Atwrneiaeth Arhosol. |
| **Aseswr Budd Pennaf** | Person sy'n cynnal asesiad ar gyfer trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid. |
| **Galluedd** | Hynny yw galluedd meddyliol. Y gallu i wneud penderfyniad am fater penodol ar yr adeg y mae angen i'r penderfyniad gael ei wneud. Ceir diffiniad cyfreithiol yn adran 2 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. |

| | |
|---|---|
| **Cartref gofal** | Cyfleuster gofal sydd wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 neu Ddeddf Safonau Gofal 2000. |
| **AGC** | Arolygiaeth Gofal Cymru yw'r corff sy'n gyfrifol am gynnal asesiadau proffesiynol a llunio barn am ofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cymdeithasol, ynghyd ag annog gwelliant gan y darparwyr gwasanaethau. |
| **Gofalwr** | Pobl sy'n darparu gofal a chymorth di-dâl i berthnasau, ffrindiau neu gymdogion eiddil, sâl neu sydd fel arall yn agored i niwed. |
| **Amodau** | Gofynion y gall Corff Goruchwylio eu gosod wrth roi awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol, ar ôl ystyried unrhyw argymhellion a wnaed gan yr Aseswr Budd Pennaf. |
| **Cydsyniad** | Cytuno ar gamau gweithredu, yn benodol yn yr adroddiad hwn cytuno ar gynllun gofal neu driniaeth. Er mwyn i gydsyniad fod yn gyfreithiol ddilys, mae'n rhaid bod gan y person sy'n ei roi y galluedd i wneud y penderfyniad, a'i fod wedi cael digon o wybodaeth i'w wneud, ac na fu dan orfodaeth nac unrhyw bwysau amhriodol. |
| **Y Llys Gwarchod** | Y llys arbenigol ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â phobl nad oes ganddynt alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau penodol. Y llys hwn sy'n bennaf cyfrifol am wneud penderfyniadau ac mae ganddo'r un hawliau, breintiau, pwerau ac awdurdod â'r Uchel Lys. Gall sefydlu cyfraith achos sy'n rhoi enghreifftiau o'r ffordd y dylai'r gyfraith gael ei rhoi ar waith. |
| **Amddifadu o Ryddid** | Mae amddifadu o ryddid yn derm a ddefnyddir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol sy'n ymwneud ag amgylchiadau pan gaiff rhyddid person ei gymryd oddi wrtho. Caiff ei ystyr ar lefel ymarferol ei ddiffinio drwy gyfraith achos. |
| **Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid** | Y fframwaith trefniadau diogelu o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i bobl y mae angen eu hamddifadu o'u rhyddid mewn ysbyty neu gartref gofal er eu budd pennaf er mwyn rhoi gofal neu driniaeth iddynt, ac nad oes ganddynt y galluedd i gydsynio i'r trefniadau a wnaed o ran eu gofal neu eu triniaeth. |

| | |
|---|---|
| **Awdurdodiad pellach** | Pan fydd awdurdodiad presennol ar gyfer DoLS ar fin dod i ben a daw'r Awdurdod Rheoli i'r casgliad bod angen i'r awdurdodiad barhau, yna dylid gwneud cais am awdurdodiad pellach. Gellir gwneud hyn 28 diwrnod ymlaen llaw. |
| **AGIC** | Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau'r GIG a darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yn erbyn cyfres o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau er mwyn tynnu sylw at feysydd i'w gwella. |
| **Trefniadau Amddiffyn Rhyddid**<br><br>https://www.gov.uk/government/publications/liberty-protection-safeguards-factsheets | Cyflwynwyd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn Neddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 a byddant yn disodli'r system Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS). Bydd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn sicrhau canlyniadau gwell i bobl sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid neu y mae angen eu hamddifadu o'u rhyddid. Nod y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yw rhoi hawliau a dymuniadau'r bobl hynny wrth wraidd pob penderfyniad a wneir ynghylch amddifadu o ryddid. |
| **Bwrdd iechyd** | Mae byrddau iechyd lleol yn cyflawni swyddogaeth corff goruchwylio ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd ac yn cydweithio ag awdurdodau lleol partner, yn yr un ardal ddaearyddol fel arfer, i gynllunio strategaethau hirdymor ar gyfer delio â materion iechyd a llesiant. Byddant yn rheoli ysbytai'r GIG a gwelyau cleifion mewnol ar wahân, os mai nhw yw'r awdurdod rheoli. |
| **Ysbyty Annibynnol** | Fel y'i diffinnir gan Ddeddf Safonau Gofal 2000 – ysbyty, sydd â'r prif ddiben o ddarparu triniaeth feddygol neu seiciatrig ar gyfer salwch neu anhwylder meddwl neu ofal lliniarol, neu unrhyw sefydliad arall, na chaiff ei ddiffinio'n ysbyty gwasanaeth iechyd, lle y darperir triniaeth neu ofal nyrsio (neu'r ddau) i bobl a all gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. |

| | |
|---|---|
| **Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol** | Eiriolwr hyfforddedig sy'n cefnogi ac yn cynrychioli person nad oes ganddo'r galluedd i wneud penderfyniadau penodol, lle nad oes gan y person unrhyw un arall i'w gefnogi. Sefydlwyd y Gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol gan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ac mae ei swyddogaethau wedi'u diffinio ynddi. |
| **Awdurdod lleol** | Yr awdurdod lleol (cyngor) sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol mewn unrhyw ran benodol o'r wlad. Uwch-reolwyr gwasanaethau cymdeithasol sy'n cyflawni swyddogaeth corff goruchwylio gwasanaethau gofal cymdeithasol.<br><br>Bydd gan gartrefi gofal a gaiff eu rhedeg gan yr awdurdod lleol awdurdodau rheoli dynodedig. |
| **Awdurdod rheoli** | Y person neu'r corff sydd â chyfrifoldeb rheoli am yr ysbyty neu'r cartref gofal penodol lle y caiff person ei amddifadu o'i ryddid, neu lle y gall gael ei amddifadu o'i ryddid. Mae'n atebol am y gofal uniongyrchol a roddir yn y lleoliad hwnnw. |
| **Cyfnod awdurdodi hwyaf** | Y cyfnod hwyaf y gall corff goruchwylio roi awdurdodiad amddifadu o ryddid, na all fod yn fwy na 12 mis. Ni all fod yn fwy na'r cyfnod a argymhellir gan yr Aseswr Budd Pennaf, a gall ddod i ben yn gynt gyda chytundeb y Corff Goruchwylio. |

| | |
|---|---|
| **Deddf Galluedd Meddyliol 2005** | Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu fframwaith i rymuso ac amddiffyn pobl nad oes ganddynt y galluedd i wneud rhai penderfyniadau drostynt eu hunain. Pum egwyddor allweddol y Ddeddf yw:<br><br>1. Mae gan bob oedolyn yr hawl i wneud ei benderfyniadau ei hun a rhaid tybio bod ganddo'r galluedd i wneud hynny oni phrofir fel arall.<br><br>2. Rhaid i berson gael yr holl gymorth ymarferol cyn i unrhyw un ei drin fel rhywun na all wneud ei benderfyniadau ei hun.<br><br>3. Nid yw'r ffaith bod unigolyn yn gwneud yr hyn a allai gael ei ystyried yn benderfyniad annoeth yn ddigon o reswm dros ei drin fel rhywun nad oes ganddo'r galluedd i wneud y penderfyniad hwnnw.<br><br>4. Rhaid i unrhyw beth a wneir, neu unrhyw benderfyniad a wneir ar ran person nad oes ganddo alluedd gael ei wneud er ei fudd pennaf.<br><br>5. Dylai unrhyw beth a wneir dros neu ar ran person nad oes ganddo alluedd gyfateb i'r hyn sy'n cyfyngu ar ei hawliau a'i ryddid sylfaenol leiaf. |
| **Y Ddeddf Galluedd Meddyliol – Cod Ymarfer** | Mae'r Cod Ymarfer yn ategu'r Ddeddf ac yn rhoi canllawiau i bawb sy'n gofalu am oedolion nad oes ganddynt alluedd a/neu'n gwneud penderfyniadau ar eu rhan. Mae'r Cod yn cynnwys astudiaethau achos ac yn egluro nodweddion allweddol y Ddeddf yn fanylach. |
| **Deddf Iechyd Meddwl 1983** | Deddfwriaeth sy'n ymwneud yn bennaf â gofal a thriniaeth orfodol cleifion â phroblemau iechyd meddwl. Mae'n cynnwys cadw unigolyn yn yr ysbyty er mwyn iddo gael triniaeth iechyd meddwl, triniaeth gymunedol dan oruchwyliaeth a gwarcheidiaeth. |
| **Ysbyty neu gartref gofal perthnasol** | Yr ysbyty neu'r cartref gofal penodol lle y caiff person ei amddifadu o'i ryddid, neu lle y gall gael ei amddifadu o'i ryddid. |

| | |
|---|---|
| **Cynrychiolydd person perthnasol** | Person, sy'n annibynnol ar yr ysbyty neu'r cartref gofal penodol, a benodir i gadw mewn cysylltiad â'r person perthnasol, a'i gynrychioli a'i gefnogi ym mhob mater sy'n ymwneud â gweithredu'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid. |
| **Cyfyngu ar ryddid** | Camau a gymerir mewn perthynas â pherson nad ydynt i'r un graddau nac mor ddwys â'i amddifadu o'i ryddid. |
| **Adolygu** | Golwg ffurfiol, newydd sbon ar sefyllfa person perthnasol lle bu, neu lle y gallai fod, newid mewn amgylchiadau a all olygu bod angen diwygio awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol, neu ei derfynu. |
| **Awdurdodiad safonol** | Awdurdodiad a roddir gan gorff goruchwylio, ar ôl cwblhau asesiad statudol, sy'n rhoi awdurdod cyfreithlon i amddifadu person perthnasol o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal penodol. |
| **Corff goruchwylio** | Adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol neu fwrdd iechyd lleol sy'n gyfrifol am ystyried cais amddifadu o ryddid a geir gan awdurdod rheoli, comisiynu'r asesiadau statudol a, lle bydd yr holl asesiadau yn cytuno, awdurdodi achos o amddifadu o ryddid. |
| **Y Goruchaf Lys** | Y Goruchaf Lys yw'r llys apêl olaf yn y DU ar gyfer achosion sifil, ac ar gyfer achosion troseddol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'n gwrando achosion sydd o'r pwys cyhoeddus neu gyfansoddiadol mwyaf sy'n effeithio ar y boblogaeth gyfan. |
| **Amddifadu o ryddid heb awdurdod** | Sefyllfa lle y caiff person ei amddifadu o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal heb i hynny gael ei awdurdodi gan awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol na brys. |

| | |
|---|---|
| **Awdurdodiad brys** | Awdurdodiad a roddir gan awdurdod rheoli am hyd at saith diwrnod, a all wedyn gael ei ymestyn am hyd at saith diwrnod arall gan gorff goruchwylio. Mae hyn yn rhoi awdurdod cyfreithlon i'r awdurdod rheoli amddifadu person o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal wrth i'r broses awdurdodi amddifadu o ryddid safonol fynd rhagddi. |

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg hefyd. Os hoffech gael copi mewn iaith neu fformat arall, cysylltwch â ni. Wrth gyhoeddwyd, mae copi o bob adroddiad ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:


0300 7900 126

agc@llyw.cymru

www.arolygiaethgofal.cymru

0300 062 8163

hiw@llyw.cymru

www.hiw.org.uk



OGL © Hawlfraint y Goron 2025



WG51505

Digital ISBN 978-1-83715-236-0